# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 28 Mai 2004

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod ymchwiliad cyhoeddus yn cael ei gynnal mewn perthynas â phob prosiect cynhyrchu ynni ar raddfa fawr yng Nghymru hyd nes y trosglwyddir pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ35771)

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y caiff y pwerau a ddisgrifir yn Adrannau 36 a 37 o Ddeddf Trydan 1989 eu trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ35773)

## *Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddweud faint o amser a gymerwyd i drosglwyddo pwerau dros les anifeiliaid i'r Cynulliad Cenedlaethol. (WAQ35772)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** Faint o arian y mae ffermwyr Sir y Fflint yn ei dderbyn ar ffurf cymorthdaliadau. (WAQ35777)

**Carl Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy);** Faint o ffermydd yn Sir y Fflint sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol. (WAQ35778)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Sandy Mewies (Delyn);** Pa rannau o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 sydd o fewn cylch gwaith y Gweinidog. (WAQ35776)

**Sandy Mewies (Delyn);** Pa rannau o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 sydd y tu hwnt i bortffolio'r Gweinidog. (WAQ35775)

**Sandy Mewies (Delyn);** Pryd y mae'r Gweinidog yn bwriadu gweithredu rhan 2 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. (WAQ35774)